

Hyfforddiant undydd aml- asiantaethol ar gam-drin plant yn rhywiol mewn teuluoedd

Adroddiad dysgu: Crynodeb gweithredol

Ionawr 2022

Nod y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol yw gwreiddio ei holl waith yn y dystiolaeth orau sydd ar gael. Ar gyfer ein holl gyrsiau a rhaglenni hyfforddiant, mae hyn yn dechrau gyda datblygiad yr hyfforddiant ac adolygwn y cynnwys yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ymchwil a'r ymarfer diweddaraf. Casglwn adborth yn rheolaidd gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant, a ddefnyddir i fyfrio a gwella'n barhaus. Pan fyddwn yn treialu neu beilota cwrs newydd, neu'n ei gynnig i grŵp newydd, byddwn weithiau'n casglu mwy o ddata a chyhoeddi adroddiad. Mae ein hadroddiad dysgu'n cynnwys adborth gan gyfranogwyr ac mae'r adroddiadau gwerthuso'n cyfuno mathau eraill o dystiolaeth, fel cyfweliadau â rheolwyr y cyfranogwyr.

Crynodeb gweithredol

Rhwng Tachwedd 2020 a Mawrth 2021, cyflwynodd y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (y Ganolfan CPRh) gwrs hyfforddiant undydd, amlasiantaethol ar 13 achlysur i weithwyr proffesiynol mewn tair ardal awdurdod lleol yn Llundain ac ar draws Cymru. Nod y cwrs yw rhoi trosolwg i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn amrediad o asiantaethau ar y prif faterion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol mewn teuluoedd, er mwyn gallu adnabod ac ymateb yn well i gam-drin o'r fath.

Cafodd yr hyfforddiant ei ddarparu ar-lein gyda 490 yn cymryd rhan. Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i ysgrifennu gan dîm ymchwil a gwerthuso'r Ganolfan CPRh, yn casglu ynghyd adborth gan 261 o'r cyfranogwyr a gwblhaodd arolwg ar-lein yn fuan ar ôl eu diwrnod hyfforddiant.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai wnaeth ymateb yn gweithio yn y gwasanaethau gofal / gwaith cymdeithasol, iechyd ac addysg. Roedd tri chwarter yn gweithio mewn swyddi rheng flaen fel ymarferwyr neu uwch-ymarferwyr (e.e. fel gweithwyr cymdeithasol, athrawon, nyrsys neu feddygon teulu). Roedd llai na dau o bob tri wedi derbyn unrhyw hyfforddiant blaenorol ar gam-drin plant yn rhywiol; y math mwyaf cyffredin o hyfforddiant blaenorol y cyfeiriwyd ato oedd modiwl byr fel rhan o'u hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelu neu gam-drin plant.

Dywedodd y mwyafrif llethol o'r rhai wnaeth ymateb fod yr hyfforddiant wedi gwella eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth wrth geisio adnabod ac ymateb i bryderon am gam-drin plant yn rhywiol; er enghraifft, roedd ganddynt ddealltwriaeth well meddent o'r arwyddion posib o gam-drin plant yn rhywiol, sut i gyfathrebu â phlant a allai fod wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, ac o rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid aml-asiantaethol. Yn bwysig, roeddent yn bwriadu newid sut yr oeddent yn gweithio gyda phlant a theuluoedd o ganlyniad i'r hyfforddiant meddent. Dywedodd y rhai nad oeddent yn gweithio'n uniongyrchol â phlant, neu oedd â gwybodaeth dda'n barod am gam-drin plant yn rhywiol, eu bod wedi elwa llai o'r hyfforddiant.

Barnwyd bod ansawdd cynnwys a chyflwyniad yr hyfforddiant yn dda, gyda'r rhan fwyaf wnaeth ymateb yn rhoi pedair neu bum seren allan o bump i'r hyfforddiant. Canmolwyd yr hyfforddwyr am eu gwybodaeth ac empathi a'r ffordd yr oedd pynciau sensitif wedi cael eu trafod mewn sefyllfa ar-lein.

Tîm Ymchwil a Gwerthuso Canolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn www.csacentre.org.uk/training/learning-and-evaluation/

Hoffem glywed gennych. Os hoffech ddysgu mwy am ein hyfforddiant, ein llwyddiannau a'n dysgu hanesyddol, ein rhaglen newydd neu am ein pecynnau pwrpasol, e-bostiwch ni ar info@csacentre.org.uk